# Y Pwyllgor Grantiau

**18 Medi 2024**

Yn bresennol: Y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall (Cadeirydd)
Y Cynghorydd S Hancock MBE, Dr M Havard, Dr R Plummer a'r Cynghorydd M James.

Hefyd yn bresennol: Arwel Evans (Swyddog Cadwraeth Fferm), Clare Flynn (Swyddog Cadwraeth), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd) a Jessica Morgan (Pennaeth Datgarboneiddio).

(Cyfarfod Rhithiol: 10:00yb – 11:26yb)

## 1. Ethol Cadeirydd

Agorodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y cyfarfod a dweud mai dim ond un enwebiad ddaeth i law am swydd y Cadeirydd, sef y Cynghorydd M James.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, **penderfynwyd** ethol y Cynghorydd M James yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

## 2. Ethol Dirprwy Gadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd mai dim ond un enwebiad ddaeth i law am swydd yr Is-Gadeirydd, sef y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall.

Ar gynnig y Cynghorydd M James, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd** ethol y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

Gan fod y Cynghorydd M James yn cael anawsterau technegol i gysylltu â'r cyfarfod, cadeiriodd S Skyrme-Blackhall weddill y cyfarfod.

## 3. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd A Tinley.

## 4. Datgan Buddiannau

Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol fel Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadeirydd Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig CNC, a Chyfarwyddwr Gwelliannau i Fioamrywiaeth Plantlife Cyf.

5. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Mai 2024 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan Dr M Havard, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Mai 2024.

6. **Log Gweithredu**

Nododd yr Aelodau y log gweithredu.

**Nodwyd.**

7. **Adroddiad y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF).**

Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Datgarboneiddio a gyflwynodd y wybodaeth ddiweddaraf am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Roedd yr adroddiad yn amlinellu gwybodaeth gefndir, ymrwymiadau ariannol presennol y cynllun, map o'r prosiectau a gymeradwywyd, manylion y prosiectau a gwblhawyd ers y cyfarfod diwethaf, a sefyllfa ariannol y cynllun am y flwyddyn 2024/25.

O ran y tabl sy'n manylu ar ymrwymiadau ariannol presennol y gronfa, dywedodd Aelod nad oedd y term 'cynnydd' yn rhoi digon o sicrwydd, a nodwyd hyn gan y Swyddog a gytunodd i roi mwy o fanylion yn y dyfodol.

**Nodwyd.**

8. **Diweddariad ar y Prosiect Cysylltu'r Arfordir**

Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Cadwraeth, a gyflwynodd adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y grantiau a dalwyd, a hynt y grantiau Cysylltu'r Arfordir o fwy na £20,000, fel y'u cymeradwywyd gan y Pwyllgor fis Ionawr 2024. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth gefndir, yr uchafbwyntiau allweddol, yr ystadegau, crynodeb o'r cynigion, a'r camau diweddaraf.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phwysigrwydd y prosiect o ran ymgysylltu â'r gymuned amaethyddol yn Sir Benfro. Cytunodd yr Aelodau y byddai monitro yn hanfodol ac yn gymorth i geisiadau am gyllid yn y dyfodol. Cytunodd y Swyddog â sylwadau'r Aelodau ac ychwanegodd bod angen gwneud rhagor o waith i gyfleu effaith y cynllun i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog bod y cytundebau â'r tirfeddianwyr yn parhau am gyfnod o 5 mlynedd. Eglurwyd y byddai effaith y cynllun i'w weld yn y cyfnod hwn ac mai nod y Swyddogion oedd crisialu astudiaethau achos yn ystod ac ar ôl y cyfnod o

5 mlynedd i ddangos yr effaith a'r newid posibl yn rhagolygon y cyfranogwyr.

**Nodwyd.**

**9. Diweddariad ar y Prosiect Gwyrddu Amaethyddiaeth**

Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Cadwraeth Fferm a gyflwynodd ddiweddariad ar y prosiect Gwyrddu Amaethyddiaeth. Roedd yr adroddiad yn amlinellu gwybodaeth gefndir am y cynllun, dadansoddiad ariannol o'r cyllid a ddyrannwyd i'r gronfa, a manylion am statws pob prosiect.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â dyfodol y cynllun, a thynnodd yr Aelodau sylw at yr angen i gofnodi effaith pob prosiect, gan gynnwys astudiaethau achos o elfennau megis canfyddiad cadarnhaol y cyfranogwyr gan y byddai hynny yn ategu ceisiadau am gyllid yn y dyfodol. Yn ogystal, awgrymwyd y dylid cynnwys map rhyngweithiol sy’n cynnwys ystadegau ar wefan yr Awdurdod er mwyn cyrraedd y cyhoedd yn gyffredinol.

**Nodwyd.**

**10. Eithrio’r cyhoedd**

Nodwyd, wrth drafod y ceisiadau, y gellid rhannu gwybodaeth oedd yn bersonol neu'n fasnachol sensitif, ac felly gofynnwyd am eithrio’r cyhoedd o'r cyfarfod.

Ar gynnig y Cynghorydd M James, a eiliwyd gan Dr S Hancock, **penderfynwyd** eithrio’r cyhoedd o’r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y’i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14 o Ran 4 Atodlen 12A i’r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**11 . Ceisiadau Gwyrddu Amaethyddiaeth i'w Hystyried**

Cyflwynodd y Swyddog Cadwraeth Fferm gais i'w ystyried dan y cynllun Gwyrddu Amaethyddiaeth, a cheisiwyd cymeradwyaeth yr Aelodau i'r cyllid hwn. Dywedwyd bod yr un cais wedi'i gyflwyno yn flaenorol i'r Aelodau, fodd bynnag, oherwydd goblygiadau caniatâd cynllunio, penderfynwyd gohirio ystyried y cais hyd nes y byddai'r mater cynllunio wedi'i ddatrys. Amlygodd y Swyddog y newidiadau a wnaed i'r cais ers iddo gael ei ystyried ddiwethaf gan yr Aelodau.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd M James, **penderfynwyd** rhoi cyllid i’r cais canlynol, yn amodol ar amodau arferol y grant:

| Cyf | Cynnig | Cyllid a Ddyfarnwyd |
|---|---|---|
| GA23/PEA | System solar (53kw) – â chyfleuster Storio Batri 33.kwh. | £21,000 |
| | **Cyfanswm** | **£21,000** |

Nodwyd bod £20,000 yn weddill yn y gronfa Gwyrddu Amaethyddiaeth, a chadarnhaodd y Swyddog bod y cronfeydd hyn wedi'u clustnodi ar gyfer prosiect llai, balchder llawr gwlad, fyddai'n gymorth pellach i lywio penderfyniadau'r tîm ynglŷn â'r dull gorau o redeg y gronfa Gwyrddu Amaethyddiaeth yn y dyfodol. Gofynnodd yr Aelodau am ragor o fanylion am y prosiect hwn yn y cyfarfod nesaf, a nodwyd hyn gan y Swyddog.

**12. Unrhyw fater arall**

Nododd yr Aelodau bod y dyddiad cau ar gyfer Cynllun Ffiniau Traddodiadol yr Awdurdod yn prysur agosáu, a gofynnwyd am ddiweddariad o'r cynllun. Cyflwynodd y Swyddog ddiweddariad, gan gynnwys nifer y ceisiadau a dderbyniwyd, nifer y ceisiadau cymwys, manylion y system sgorio, a'r cyllid a ddyrennir i'r cynllun.

Eglurodd y Swyddog bod ceisiadau i’r cynllun Ffiniau Traddodiadol yn cael eu cyfyngu i £10,000, a bod penderfyniadau yn cael eu dirprwyo i’r Swyddogion, yn hytrach na chael eu gwneud gan y Pwyllgor. O ganlyniad i ddiddordeb yr Aelodau yn y cynllun, cytunodd y Swyddog i gyflwyno adroddiad ar y Cynllun Ffiniau Traddodiadol yn ystod Gwanwyn 2025.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Grantiau a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2026 heb eu diwygio. |